Gorffennaf 2022

Creu yfory, gyda'n gilydd: ymgynghori ar ein methodoleg ar gyfer PR24

Cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer sector dŵr Cymru drwy ein methodoleg draft ar gyfer adolygiad pris 2024

Ofwat

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi blaenoriaethau ac amcanion strategol ar gyfer Ofwat yn ei datganiad o flaenoriaethau ac amcanion strategol, y Datganiad Polisi Strategol (SPS) drafft newydd, a osodwyd gerbron y Senedd ar 6 Gorffennaf.[1] Bydd hi'n ofynnol i ni weithredu yn unol â'r SPS terfynol pan fyddwn yn gosod rheolaethau prisiau ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru yn 2024 ac wrth gyflawni ein swyddogaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru.[2]

Mae Llywodraeth Cymru wedi fframio'r SPS drafft newydd yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i Rhaglen Lywodraethu 2021-2026. Mae'n nodi cyfres o flaenoriaethau ac amcanion strategol ar gyfer Ofwat. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat ddatblygu fframwaith rheoleiddio sy'n briodol i Gymru yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn sy'n berthnasol yng nghyd-destun Cymru.

I grynhoi, amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer sut y mae'n disgwyl i Ofwat gyflawni ei swyddogaethau yw:

- mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar **ganlyniadau** sy'n hyrwyddo ffocws priodol ar fynd i'r afael â risgiau **hirdymor**, diogelu gwytnwch a pherfformiad hirdymor a sicrhau bod amseriad buddsoddiad yn arwain at degwch rhwng cenedlaethau;
- dilyn dull **ataliol drwy annog cwmnïau i ddeall ac ystyried sut y gellid mynd i'r afael â phroblemau yn eu ffynhonnell**;
- rhoi **gwerth am arian** i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd a herio cwmnïau i ddarparu cymorth cynaliadwy ac effeithiol i gwsmeriaid bregus a chwsmeriaid sy'n cael trafferth talu;

[1] O dan adran 2B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.
[2] At y dibenion hyn, ystyr "swyddogaethau perthnasol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru" yw'r swyddogaethau a grybwyllir yn adran 2(1) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i'r graddau y maent yn ymwneud ag ardaloedd penodi sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. "Ardal benodi" yw'r ardal y mae cwmni wedi'i benodi'n ymgymerwr dŵr a/neu garthffosiaeth ar ei chyfer.

- herio cwmnïau i ddarparu atebion **gwerth gorau** drwy annog buddsoddiad sy'n ymateb i nifer o ysgogwyr neu sydd â nifer o fanteision ac sy'n ystyried canlyniadau a gwerth amgylcheddol a chymdeithasol ehangach i atebion;
- annog cwmnïau i **gynnwys,** ymgysylltu â, ac ystyried safbwyntiau cwsmeriaid a rhanddeiliaid ar ganlyniadau hirdymor, blaenoriaethau a chyflymder cyflawni; a defnyddio **cydweithredu** effeithiol i wneud y mwyaf o effaith ac effeithiolrwydd rheoleiddio;
- darparu **fframwaith rheoleiddio** cydlynus a thryloyw sydd, yn ei gyfanrwydd, yn gymesur, yn effeithiol, yn dryloyw ac yn effeithlon ac yn herio cwmnïau i ddarparu tystiolaeth glir a chymhellol i ategu eu cynlluniau buddsoddi a chwilio am **ffyrdd newydd o weithio** i gyflawni'n fwy effeithlon ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi disgwyliadau manylach ar gyfer Ofwat mewn perthynas â phum blaenoriaeth strategol:



- **argyfyngau hinsawdd a natur;**
- **yr amgylchedd**
- **gwytnwch;**
- **iechyd asedau; a**
- **chwsmeriaid a chymunedau.**

Rydym wedi adlewyrchu'r SPS drafft newydd yn ein methodoleg ddrafft.

Rydym yn deall y brys i ymateb i'r argyfyngau o ran hinsawdd a natur, a maint y gwelliannau amgylcheddol sydd eu hangen. Rydym yn deall bod angen i gwsmeriaid gael eu clywed yn ystyrlon a bod angen gwasanaethau dibynadwy a chadarn arnynt. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau ar gyllid pobl, a'r angen i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o gyflawni, nawr ac yn y dyfodol. Rydym hefyd yn deall bod y ffordd yr ydym yn gweithio, nid y gwaith a wnawn yn unig, yn bwysig a bod hyn yn berthnasol i ni, i gwmnïau, ac i'r sector yn ei gyfanrwydd.

Mewn ymateb rydym wedi nodi ein cynigion i ysgogi cwmnïau i ddarparu gwerth i gwsmeriaid a'r amgylchedd, ac i gyflawni pedwar uchelgais allweddol ar gyfer PR24:

- **Ffocws ar yr hirdymor.**
- **Darparu gwell gwerth amgylcheddol a chymdeithasol.**
- **Adlewyrchu dealltwriaeth gliriach o gwsmeriaid a chymunedau.**
- **Ysgogi gwelliannau drwy effeithlonrwydd ac arloesedd.**

Pan fyddwn yn cwblhau methodoleg PR24 mae'n debygol y bydd yr SPS newydd wedi disodli'r SPS presennol. Byddwn yn sicrhau bod y fethodoleg derfynol yn adlewyrchu'r SPS newydd llawn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru yn hyn o beth.

Mae gweddill y ddogfen hon yn crynhoi sut mae ein polisïau arfaethedig yn cefnogi cyflawniad pum blaenoriaeth strategol Llywodraeth Cymru. Ar gyfer pob blaenoriaeth rydym yn nodi sut rydym wedi ystyried amcanion strategol Llywodraeth Cymru.

Argyfyngau hinsawdd a natur

Rydym am i gwmnïau sicrhau uchelgais ar gyflymder sy'n ymateb i ofynion yr argyfyngau hinsawdd a natur – nawr ac yn yr hirdymor. Er mwyn helpu i gyflawni hyn ac i hwyluso cynllunio buddsoddiad hirdymor a sicrhau canlyniadau rydym wedi cyflwyno **strategaethau cyflawni hirdymor** a fydd yn cael eu cyflwyno fel rhan o gyflwyniadau PR24 cwmnïau. Byddwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau amlinellu eu cynlluniau busnes ar gyfer 2025-2030 yng nghyd-destun strategaethau cyflawni clir ar gyfer y 25 mlynedd nesaf. Bydd y strategaethau hyn yn canolbwyntio ar y gwelliannau hirdymor sydd eu hangen, yn unol â'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer Ofwat gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dull ar gyfer strategaethau cyflawni hirdymor yn cyd-fynd â gofyniad Llywodraeth Cymru i ystyried**egwyddorion economi gylchol ac economi sylfaenol.**

Rhaid i gwmnïau nodi'r **canlyniadau hirdymor** y mae angen iddynt eu cyflawni yng ngoleuni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, cwsmeriaid a chymunedau. Rydym wedi cyflwyno'r **dull cydweithredol yng Nghymru** a fydd yn galluogi rhanddeiliaid Cymru i lywio'r canlyniadau a'r blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru y dylai cwmnïau eu hadlewyrchu yn eu strategaethau cyflawni hirdymor a'u cynlluniau busnes.

Rydym yn cynnig ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau fabwysiadu **pecyn o ymrwymiadau perfformiad cyffredin ar gyfer 2025-30** a fydd yn ymdrin â materion allweddol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd gan gynnwys bioamrywiaeth, allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol, y galw am ddŵr, ansawdd dŵr afonydd, dŵr ymdrochi ac amrywiaeth o fesurau i leihau'r effaith ar gyrff dŵr. Rydym o'r farn bod y fframwaith ymrwymiad perfformiad arfaethedig yn cyd-fynd â **gofyniad Llywodraeth Cymru am ddull integredig seiliedig ar ganlyniadau a safonau** ar gyfer gwella ansawdd cyrff dŵr sydd hefyd yn adlewyrchu'r dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Drwy osod fframwaith canlyniadau sy'n cwmpasu ystod eang o faterion amgylcheddol rydym yn annog cwmnïau i ystyried eu heffeithiau ehangach wrth wneud penderfyniadau buddsoddi a gweithredol. Er enghraifft, ystyried effeithiau bioamrywiaeth a nwyon tŷ gwydr gweithredol buddsoddiadau i wella ansawdd dŵr afonydd mewn ffordd gyfannol ac integredig.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau barhau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a symud tuag at sero net drwy eu gweithgareddau parhaus a ariennir drwy'r lwfans gwariant sylfaenol. Rydym yn cynnig caniatáu **gwariant gwella penodol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr** ymhellach ac rydym yn cyflwyno **cyllid her sero net** i ganiatáu i gwmnïau effeithlon fynd ymhellach na'u cymheiriaid. Mae hyn yn ymateb i'r angen i gyflymu'r ymateb i newid yn yr hinsawdd.

Bydd ein fframwaith canlyniadau yn **dwyn cwmnïau i gyfrif am y canlyniadau y mae cwsmeriaid yn talu amdanynt** – ac yn cymell cwmnïau i fynd y tu hwnt i hyn pan fo hynny er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Rydym wedi ymrwymo i **gynnal y fframwaith canlyniadau cyffredinol mewn adolygiadau prisiau yn y dyfodol**. Rydym yn disgwyl i'r canlyniadau yr ydym yn eu cymell yn PR24 fod o fudd parhaus i gwsmeriaid a'r amgylchedd, a disgwyliwn iddynt gael cymhellion ariannol mewn cyfnodau adolygu prisiau yn y dyfodol. Os bydd cwmni'n ymestyn ei hun ac yn perfformio'n well nag eraill, mewn cyfnodau rheoli prisiau yn y dyfodol bydd yn ennill taliadau gorberfformiad, ac i'r gwrthwyneb, os bydd ar ei hôl hi, bydd yn talu taliadau tanberfformio. Rydym hefyd yn agored i gynigion i roi mwy o eglurder ynglŷn â'n dull arfaethedig ar gyfer cymhellion cyflawni canlyniadau yn PR29 lle gellir dangos y byddai hyn yn amlwg er budd cwsmeriaid.

Gyda'n ffocws ar yr hirdymor, rydym yn awyddus i hwyluso **buddsoddiadau aml-gyfnod tra hefyd yn diogelu cwsmeriaid**. Rydym o'r farn y bydd symud tuag at strategaethau cyflawni hirdymor a chynllunio addasol yn rhoi hyd yn oed mwy o hyblygrwydd i gwmnïau o ran sut y maent yn sicrhau canlyniadau i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd. Mae'r fethodoleg hon yn ceisio hwyluso buddsoddiad hirdymor effeithlon, fel bod yr ymyriadau cywir yn cael eu darparu a buddsoddiadau'n cael eu rhoi mewn trefn briodol, er enghraifft, drwy hwyluso buddsoddiadau aml-gyfnod, ariannu gwaith paratoi priodol a chadw cyllid pontio.

Rydym yn cefnogi symudiad tuag at **Raglen Amgylchedd Genedlaethol (NEP) sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau** ac rydym yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyflawni hyn, gan gydnabod bod y dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'r gofyniad yng Nghymru am ddull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn gyson â'r dull yr ydym yn ceisio ei ddefnyddio ar gyfer gwariant ar welliannau eraill. Gyda'r dull hwn rydym yn pennu'r lefelau perfformiad y disgwyliwn i gwmnïau eu cyflawni ac yna'n pennu cyfanswm y lwfansau gwariant effeithlon sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau hyn. Bydd hyn yn helpu cwmnïau i ddewis y dull gorau o gyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol yn yr NEP, gan hwyluso'r defnydd o atebion seiliedig ar natur.

Rydym yn cynnig bod cwmnïau'n cael **cefnogaeth cwsmeriaid ar gyfer gwariant ar welliannau i sicrhau budd amgylcheddol ehangach sy'n mynd ymhellach na'u targedau ffurfiol a'u gofynion statudol**. Dylai cwmnïau gynnal ymgysylltiad cwmni-benodol â'u cwsmeriaid i lywio cynigion o'r fath. Rydym yn cynnig **sesiynau her agored** a fydd yn rhoi'r cyfle i randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr a chyrff amgylcheddol lleol, holi a herio cwmnïau yn ystod y broses o ddatblygu cynlluniau busnes ac ar ôl cyflwyno cynlluniau terfynol a byddwn yn gweithio gyda Fforwm PR24 Cymru i chwilio am gyfleoedd i alinio, gan gofio'r angen i leisiau cwsmeriaid gael eu clywed yn y fforwm.

Yr Amgylchedd



Rydym am i gwmnïau bennu graddfa a chyflymder uchelgais a fydd yn ysgogi gwelliant amgylcheddol parhaus ac a fydd yn llywio rheolaeth gynaliadwy ac effeithlon ar adnoddau naturiol.

Mae ein dull ar gyfer strategaethau cyflawni hirdymor yn seiliedig ar gynllunio addasol a rheoli risgiau. Bydd cynlluniau addasol yn ystyried effaith senarios amgen credadwy, gan gynnwys rhai ar newid yn yr hinsawdd a thwf poblogaeth. Felly mae'r dull hwn yn addas ar gyfer cymryd **agwedd ataliol hirdymor**.

Mae gan gwmnïau **sawl fframwaith cynllunio strategol hirdymor eisoes**. Mae'r fframweithiau hyn yn cynnwys cynlluniau rheoli adnoddau dŵr (WRMP) a chynlluniau draenio a rheoli dŵr gwastraff (DWMP). Mae'r fframweithiau hyn yn cael eu hategu gan yr NEP yng Nghymru. Mae'r fframweithiau hyn yn pennu cyfeiriad hirdymor ar gyfer meysydd allweddol gweithgareddau cwmnïau ac yn cynnwys cydweithredu â rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill.

Yn unol ag egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol rydym hefyd yn disgwyl i gwmnïau fabwysiadu **dulliau integredig**. Mae cynlluniau rheoli basnau afonydd yn sefydlu dull integredig ar gyfer gwarchod a defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd dŵr. Disgwyliwn i gwmnïau ystyried cynlluniau rheoli basnau afonydd wrth ddatblygu eu rhaglenni NEP a'u cynigion gwella.

Drwy'r DWMP rydym yn disgwyl i gwmnïau ystyried ystod eang o opsiynau sy'n lliniaru'r risgiau a nodwyd, gan gynnwys **atebion seiliedig ar natur, cynlluniau ar raddfa dalgylch ac ymyriadau seilwaith llwyd traddodiadol**. Mae llawer o risgiau perfformiad systemau dŵr gwastraff yn ymwneud â dulliau gweithredu rhwydwaith neu gynnal a chadw y gellir eu gwella. Felly, cyn archwilio opsiynau gwella byddwn yn disgwyl i gwmnïau ddangos bod addasiadau i drefniadau gweithredu a chynnal a chadw wedi'u rhoi ar waith. Dylai'r opsiynau ddangos bod gwelliannau amgylcheddol ehangach a gwaith partneriaeth cydweithredol wedi'u hymgorffori.

Drwy'r WRMP a DWMP, dylai cwmnïau **groesawu opsiynau arloesol gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio data a rhwydweithiau clyfar**. Dylai cynlluniau cwmnïau wneud defnydd effeithlon o dechnoleg gyfredol, ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg sy'n dod i'r amlwg ac **arloesi** yn y dyfodol, yn ogystal ag archwilio atebion seiliedig ar natur. Rydym hefyd yn disgwyl ystyriaeth lawn o **ymyriadau gweithredol, pan fo'r rhain yn briodol, er**

enghraifft yn ystod digwyddiadau tebygolrwydd isel. Bydd hyn yn helpu i osgoi datblygu seilwaith diangen a fydd efallai ddim yn cael fawr o ddefnydd neu na fydd ei angen os nad yw risgiau'n dod i'r amlwg.

Bydd angen i'r **allbynnau o fframweithiau cynllunio strategol lywio, a chyd-fynd â, strategaeth gyflawni hirdymor pob cwmni**. Rydym yn disgwyl i gwmnïau ganolbwyntio'n gryf ar yr holl fframweithiau cynllunio strategol er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn, yn gyflawnadwy ac yn hyblyg i ddiwallu disgwyliadau cwsmeriaid a chanlyniadau amgylcheddol. **Rydym yn disgwyl gweld cysondeb rhwng WRMP a DWMP terfynol a strategaethau cyflawni hirdymor a chynlluniau busnes cwmnïau yn PR24.** Byddwn hefyd yn asesu sut mae cwmnïau wedi adlewyrchu ein disgwyliadau yn eu WRMP a'u DWMP terfynol, a sut y maent wedi ymateb i'n hadborth a ddarparwyd drwy gydol y broses gynllunio. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i hyn, ynghyd ag unrhyw wahaniaethau rhwng cynlluniau terfynol a chynlluniau busnes, pan fyddwn yn asesu cynigion gwariant a chynlluniau busnes

Gan adlewyrchu'r dull **rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy** yng Nghymru, rydym am hwyluso mwy o ddefnydd o atebion seiliedig ar natur. Gall atebion seiliedig ar natur greu buddion cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol ond gallant olygu gwariant gweithredu ychwanegol (opex). Mewn ymateb i gwmnïau'n awgrymu bod rhwystrau rhag bwrw ymlaen ag atebion seiliedig ar opex, rydym yn cynnig rhoi mwy o sicrwydd cyllid ar gyfer atebion seiliedig ar opex, megis caniatáu iddynt gyfalafu gwariant gweithredu neu drwy ddarparu **lwfans deng mlynedd** ar gyfer y gwariant gweithredu effeithlon sy'n ymwneud ag atebion seiliedig ar natur. Dylai hyn annog mwy o ddefnydd o atebion seiliedig ar natur yn PR24.

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau archwilio opsiynau sy'n ceisio **mynd i'r afael â nifer o ysgogwyr**, megis rheoli dŵr wyneb sydd o fudd i berfformiad o ran llifogydd ac ansawdd dŵr. Bydd angen i gwmnïau ddangos sut yr ystyriwyd **cyd-ddibyniaethau** â chynlluniau strategol rhanddeiliaid eraill. Efallai y bydd angen amseroedd arwain hirach ar rai opsiynau i esblygu a bydd angen eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid eraill sy'n golygu efallai na fyddant bob amser yn briodol ar gyfer anghenion tymor agos. Dylai'r opsiynau ystyried yn llawn y **cyfleoedd gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys cydariannu a chyd-gyflawni.**

Rydym am i gwmnïau ddarparu gwerth **gorau i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd**. Rydym am iddynt ddarparu mwy o werth cyhoeddus a sicrhau manteision amgylcheddol a chymdeithasol ehangach wrthgyflawni eu swyddogaethau statudol . I gefnogi hyn, rydym yn cynnig ystyried buddion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach yn fwy cadarn a helaeth yn ein hasesiad o gynigion gwariant ar welliannau i annog cwmnïau i ddarparu gwerth gorau.

Egwyddor bwysig arall yn ein dull yw **sicrhau bod cwmnïau'n cael eu cymell i barhau i wella perfformiad yn yr hirdymor.**

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau adrodd ar **gynnydd o ran lleihau'r galw cyffredinol am ddŵr** a chydrannau'r galw hwn (gollyngiadau, defnydd y pen a galw gan fusnesau) yn eu hadroddiadau rheoleiddio blynyddol. Rydym yn ymgynghori ynglŷn ag a ddylem gymell darpariaeth ar lefel cydrannau unigol neu ar lefel gyffredinol y galw am ddŵr. Disgwyliwn gymell gwelliannau perfformiad yn briodol, a gosod lefelau gwasanaeth targed ymestynnol ond cyraeddadwy. Yn gyson ag argymhellion adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan gwmnïau dŵr a manwerthwyr fel rhan o Gynllun Gweithredu'r Diwydiant i **wella effeithlonrwydd dŵr busnesau**, rydym yn cynnig cymell gostyngiadau mewn defnydd busnes yn PR24 drwy gyflwyno ymrwymiad perfformiad newydd.

Rydym yn cydnabod, yn wyneb yr heriau y mae'r sector dŵr yn eu hwynebu – newid yn yr hinsawdd, yr angen i wella ansawdd dŵr afonydd a'r pwysau ar gyllid pobl – bod angen i gwmnïau **arloesi'n gyson** er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd am gost y gall pobl ei fforddio. Felly, rydym yn cynnig rhoi mwy o gymhelliant i arloesi a pherfformiad uchel iawn drwy fwy o gymhellion ar ymrwymiadau perfformiad allweddol, megis llifogydd o garthffosydd ac achosion o lygredd.

Rydym hefyd yn disgwyl parhau â'r **Gronfa Arloesi yn PR24**. Yn dilyn yr adborth cadarnhaol i ymgynghoriad Ebrill 2022 ar ddyfodol y Gronfa Arloesi, dros y misoedd nesaf byddwn yn gweithio gyda'r sector i edrych ar sut y gall y gronfa barhau i ysgogi arloesedd i helpu i ymateb i'r heriau strategol sy'n wynebu'r sector dŵr.

Gwytnwch



Rydym yn cydnabod y pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ei roi ar wytnwch economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig ag **adnoddau dŵr yng Nghymru**, yn enwedig wrth ystyried trosglwyddiadau dŵr o fewn a thu allan i Gymru. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr gadw at **ganllawiau cynllunio adnoddau dŵr y cyd-reoleiddiwr ac egwyddorion arweiniol WRMP Llywodraeth Cymru**, ac i weithio'n agos â'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys Cynghrair Rheoleiddwyr ar gyfer Datblygiad Seilwaith (RAPID). Rydym hefyd eisiau parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, CNC ac eraill ar wytnwch adnoddau dŵr wrth i ni weithio tuag at y fethodoleg derfynol ac ymlaen i PR29.

Rydym am i gwmnïau sicrhau bod gwytnwch gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yn awr ac yn y dyfodol yn cael ei ddeall a'i reoli drwy gynlluniau cadarn, addasol seiliedig ar dystiolaeth a thrwy reoli risgiau. **Rydym yn ariannu cwmnïau dŵr i fod yn wydn dros yr hirdymor drwy gyfuniad o wariant sylfaenol a gwariant gwella**. Mae gwytnwch yn greiddiol i gynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau draenio a rheoli dŵr gwastraff ac maent yn galluogi cwmnïau i nodi'r buddsoddiad ychwanegol sydd ei angen i gynnal gwytnwch dros yr hirdymor.

Yn ogystal â'n hymrwymiadau perfformiad sy'n cefnogi iechyd asedau, rydym yn datblygu **fframwaith monitro integredig i roi golwg fwy cyflawn ar iechyd asedau a gwytnwch gweithredol**. Rydym yn ymdrechu i gael gwytnwch gweithredol cryf gyda seilwaith a gwasanaethau cadarn a'r **sgiliau a systemau** cywir; gwytnwch corfforaethol cryf gydag arweinyddiaeth bwrdd, llywodraethu, atebolrwydd a sicrwydd da; a gwytnwch ariannol cryf gyda threfniadau ariannol cadarn gan gynnwys strwythurau cyfalaf. Mae peth o'r datblygiad polisi hwn yn digwydd y tu allan i PR24.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau ystyried risgiau ac ansicrwydd wrth werthuso'r defnydd o atebion seiliedig ar natur. Dylai cwmnïau ddefnyddio atebion seiliedig ar natur pan fydd ganddynt **lefel weddol uchel o hyder** y bydd yr ateb yn cyflawni'r canlyniadau dymunol ac yn caniatáu iddynt fodloni eu gofynion statudol. Lle nad yw hyn yn wir, gall cwmnïau gynnig cynnal **cynllun peilot cymesur ac amserol**. Mewn achos o'r fath, dylai cwmnïau nodi sut y maent yn bwriadu monitro ac adrodd ar gynnydd a chanlyniadau'r cynllun peilot, gan gynnwys sut y caiff y data ei rannu â chwmnïau eraill. Bydd hyn yn helpu i leihau'r risgiau a'r ansicrwydd ar gyfer yr atebion hyn mewn adolygiadau yn y dyfodol ac felly cefnogi arloesedd tra'n rheoli'r risgiau i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

Rydym yn cynnig **diwygio'r diffiniad o wella gwytnwch i gynnwys rheoli risgiau cynyddol o beryglon sydd y tu hwnt i'w rheolaeth**, nad ydynt wedi'u cynnwys mewn meysydd gwella eraill. Un enghraifft yw perygl llifogydd afonol o asedau cwmni

Bydd gwariant ar gyflawni canlyniadau'r **Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng** yn cyfrannu at wytnwch yn wyneb bygythiadau diogelwch a digwyddiadau gweithredol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol cwmnïau'n cael eu cyflawni'n effeithlon i ddiogelu rhag yr ystod eang o fygythiadau diogelwch newydd a gofynion parodrwydd. Rydym yn cynnig darparu lwfansau ychwanegol i dalu am ddynodiadau newydd a newidiadau sylweddol i lefel gwasanaeth newydd a gwell.

Iechyd asedau



Mae cwmnïau'n mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'u risgiau gwytnwch drwy lwfansau gwariant sylfaenol. Disgwyliwn felly i gwmnïau barhau i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn. Mae cwmnïau wedi gwneud gwelliannau i iechyd asedau o fewn lwfansau cost sylfaenol yn y gorffennol a disgwyliwn iddynt barhau i wneud hynny yn y dyfodol.

Rydym am i gwmnïau fonitro iechyd eu hasedau a darparu cynlluniau blaengar i fynd i'r afael â materion yn yr hirdymor**.** Rydym yn sicrhau bod cwmnïau'n cael eu cymell i gyflawni eu cynlluniau hirdymor yn effeithlon tra hefyd yn sicrhau stiwardiaeth hirdymor briodol o'u hasedau. Ar gyfer **ymrwymiadau perfformiad iechyd asedau,** rydym am ystyried data perfformiad pellach i benderfynu a yw'n briodol gosod y lefel perfformiad ar sail gyffredinol neu ar sail benodol i'r cwmnïau. Mae ein gweithdrefn canlyniadau PR24 arfaethedig yn cynnwys **ymrwymiadau perfformiad iechyd asedau allweddol** – atgyweiriadau i'r prif gyflenwad, toriadau heb eu cynllunio a charthffosydd yn cwympo. Mae'r ymrwymiadau perfformiad hyn yn cymell cwmnïau i gynnal eu rhwydweithiau ac annog gwelliannau i wasanaethau ac iechyd asedau.

Bydd ein dull yn caniatáu i gwmnïau fuddsoddi nawr mewn gwelliannau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol. A byddwn yn sicrhau bod costau'r gwelliannau hyn yn cael eu rhannu'n deg rhwng cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol. Disgwyliwn i gwmnïau ystyried cydbwysedd adennill costau rhwng gwahanol genedlaethau o gwsmeriaid a llunnir fframwaith i sicrhau ein bod yn **diogelu buddiannau cwsmeriaid nawr ac yn yr hirdymor**.

Ar gyfer PR24 rydym yn cynnig cynnwys **mwy o edrych ymlaen yn ein modelu gwariant sylfaenol**. Rydym eisoes yn cynnwys ysgogwyr cost a ragwelir yn ein modelau cost sylfaenol fel bod lwfansau yn adlewyrchu newidiadau yn y dyfodol o ran graddfa, dwysedd a chymhlethdod trin dŵr a dŵr gwastraff. Rydym yn casglu data ychwanegol lle gallai cymhlethdod triniaeth gynyddu yn y dyfodol fel y gallwn roi ystyriaeth i hyn wrth osod lwfansau gwariant effeithlon. Rydym yn barod i ystyried tystiolaeth cwmnïau ar ffactorau alldarddol ychwanegol / ysgogwyr cost sy'n gofyn am newid sylweddol mewn gwariant cynnal a chadw effeithlon drwy'r broses hawlio addasiad cost.

Disgwyliwn i strategaethau cyflawni hirdymor cwmnïau lywio eu cynlluniau busnes PR24. Bydd strategaethau cyflawni hirdymor yn darparu cynllun addasol o wariant gwella cynlluniedig cwmnïau dros 2025-30 ac yn yr hirdymor. Bydd cynlluniau addasol yn ystyried effaith senarios amgen credadwy, gan gynnwys rhai ar newid yn yr hinsawdd a thwf poblogaeth.

Y tu allan i PR24 rydym hefyd yn datblygu fframwaith monitro integredig i roi golwg fwy cyflawn ar iechyd asedau a gwytnwch gweithredol. Rydym wedi nodi cynigion i archwilio a phrofi mesurau ehangach sy'n gysylltiedig ag iechyd a pherfformiad asedau dŵr a dŵr gwastraff yn ein papur trafod gwytnwch gweithredol.

Cwsmeriaid a chymunedau



Mae fforddiadwyedd yn llinyn aur sy'n rhedeg drwy ein fframwaith. Ar gyfer PR24 rydym yn disgwyl i gyflwyniadau cynlluniau busnes cwmnïau gydnabod a mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau cyffredinol cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol gyda ffocws ar bryderon ynglŷn â fforddiadwyedd biliau. Felly bydd angen i gwmnïau ddatblygu cynlluniau busnes sy'n sicrhau:

- fforddiadwyedd cyffredinol, gan gynnwys darparu gwerth am arian;
- fforddiadwyedd ar gyfer cwsmeriaid presennol a'r dyfodol; a
- fforddiadwyedd i gwsmeriaid preswyl sy'n cael trafferth talu, neu sydd mewn perygl o gael trafferth talu.

Un o'r ffyrdd pwysicaf yr ydym yn hybu fforddiadwyedd cyffredinol yw drwy gymell a herio gwelliannau o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Byddwn yn gwneud hyn drwy osod her cost effeithlonrwydd ymestynnol ond cyraeddadwy i annog cwmnïau sydd ar ei hôl hi i ddal i fyny â'r cwmnïau mwyaf blaenllaw yn y sector i wthio'u hunain i wella eu heffeithlonrwydd ymhellach.

Byddwn yn disgwyl i gwmnïau gefnogi fforddiadwyedd yn PR24 drwy sicrhau:

- newid sylweddol mewn effeithlonrwydd;
- arloesi a gweithio mewn partneriaethau i ddarparu mwy i gwsmeriaid;
- ffocws hirdymor i leihau costau oes a buddsoddiadau fesul cam dros amser; deall barn cwsmeriaid yn glir, gan gynnwys eu disgwyliadau ynglŷn â chynyddu biliau heddiw o gymharu â'r dyfodol;
- a deall yn glir a chefnogi anghenion amrywiol cwsmeriaid o ddydd i ddydd, nid dim ond ar gyfer adolygiad prisiau;
- dangos bod eu cynlluniau'n fforddiadwy, gan gynnwys ar gyfer y rheini sy'n cael trafferth talu;
- cymryd camau, er enghraifft llyfnu biliau, i reoli'r effaith ar fforddiadwyedd a thegwch rhwng cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynigion ar y Tariff Cymdeithasol Sengl. Rydym yn gofyn i gwmnïau gyflwyno **cynlluniau sy'n mynd i'r afael â dwy senario**:

1. gweithrediad Tariff Cymdeithasol Sengl; a
2. pharhad a datblygiad cynigion cymorth presennol cwmnïau i gwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau.

Rydym hefyd yn cefnogi **fforddiadwyedd y tu allan i'r adolygiad prisiau**, er enghraifft drwy ymgynghori ar reolau codi tâl, newidiadau i drwyddedau i gefnogi gwasanaeth cwsmeriaid o ansawdd uchel, a'n canllawiau Talu'n deg sy'n gosod isafswm disgwyliadau ar gyfer cefnogi cwsmeriaid sydd mewn dyled.

Rydym eisoes wedi bod yn defnyddio ein hoffer rheoleiddio eraill i annog cwmnïau dŵr i **weithredu argymhellion/camau gweithredu Adolygiad Fforddiadwyedd CCW**, yn gyson â disgwyliad Llywodraeth Cymru y dylem gydweithio ag eraill i roi argymhellion perthnasol ar waith mewn ffordd sydd o fudd i gwsmeriaid cwmnïau dŵr yng Nghymru. Er enghraifft, roedd ein canllawiau Talu'n deg a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn ymdrin â nifer o gamau gweithredu CCW a gyfeiriwyd at gwmnïau dŵr. Mae CCW hefyd yn aelod craidd o Fforwm PR24 Cymru a disgwyliwn y bydd trafodaethau sy'n adlewyrchu'r cyd-destun fforddiadwyedd penodol yng Nghymru yn helpu i lywio strategaethau cyflawni hirdymor a chynlluniau busnes cwmnïau.

Rydym yn bwriadu parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau bod cymorth fforddiadwyedd ar gael, wedi'i dargedu'n briodol ac yn hawdd ei gyrraedd ac rydym yn parhau wedi ymrwymo i fentrau rhannu data ac yn parhau i ysgogi'r sector i ymgysylltu'n adeiladol â datblygiad rhannu data'r Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth rhwng y sector dŵr a sectorau ynni.

Yn greiddiol i'n strategaeth mae'r angen i gynlluniau busnes cwmnïau **adlewyrchu anghenion, disgwyliadau a blaenoriaethau cwsmeriaid a chymunedau** ar gyfer y gwasanaethau a'r buddion y bydd y cwmni'n eu darparu. Ein huchelgais yw bod lleisiau **cwsmeriaid preswyl a busnes yn cael eu clywed yn fwy uniongyrchol ac yn fwy ystyrlon** yn PR24 nag erioed o'r blaen a bod y lleisiau hyn yn eu tro yn llywio strategaethau cyflawni a chynlluniau busnes hirdymor yn ystyrlon. Gobeithiwn y bydd ymgysylltu mwy tryloyw o ansawdd uwch yn helpu i feithrin ymhellach y perthnasoedd sydd eu hangen i wneud mwy o gynnydd ar yr heriau mawr megis ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd, cyflymu gwelliannau amgylcheddol ac ymateb i'r pwysau ar gyllid pobl. Mae hyn yn arbennig o wir lle bydd cyflawni canlyniadau yn elwa o fod cwmnïau'n **gweithio mewn partneriaeth â'u cwsmeriaid a'u cymunedau** i gyflawni uchelgais yn gyflym.

Yn seiliedig ar y disgwyliadau ar gyfer ymgysylltu â chwsmeriaid rydym eisoes wedi'u nodi, rydym yn gweithio'n agos gyda CCW a chwmnïau i ddatblygu dull cyffredin o ymchwilio i **farn cwsmeriaid am fforddiadwyedd a derbynioldeb** cynlluniau. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cymharu barn cwsmeriaid ar draws cwmnïau.

Rydym hefyd yn cynnal **ymchwil cwsmeriaid ar y cyd,** ar draws pob cwmni, i gael dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i gwsmeriaid a cheisio barn cwsmeriaid ar wahân ar lefel cwmni a gwlad i ddylanwadu'n uniongyrchol ar gymhellion cyflawni canlyniadau ar gyfer pob cwmni.

Gan wrando ar adborth ar ôl PR19 ac wrth adlewyrchu amgylchiadau a chyd-destun polisi Cymru, rydym yn cyflwyno **dull cydweithredol newydd ar gyfer PR24 yng Nghymru**. Bydd y dull hwn yn sicrhau y bydd rhanddeiliaid Cymru, drwy **Fforwm PR24 Cymru**, yn cydweithio i roi cyfeiriad ar gyfer canlyniadau strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru, a bydd y cyfeiriad hwn yn ei dro yn helpu i lywio strategaethau cyflawni hirdymor a chynlluniau busnes cwmnïau. Mae llais y cwsmer yn faes allweddol y bydd **Fforwm PR24 Cymru** yn ei ystyried, a byddwn yn ceisio sicrhau y bydd canfyddiadau ein hymchwil cwsmeriaid yn llywio'r trafodaethau hyn.

Byddwn hefyd yn sicrhau y bydd cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn gallu gwneud sylwadau uniongyrchol ar gynlluniau cwmnïau. Rydym yn cynnig y dylai pob cwmni gynnal **sesiynau her agored** lle bydd cwsmeriaid, cynrychiolwyr cymunedol ac amgylcheddol yn gallu gofyn cwestiynau agored i'r cwmni am ei gynlluniau drafft a therfynol. Bydd angen i gwmnïau ddangos bod eu cynlluniau'n fforddiadwy, gan gynnwys ar gyfer y rheini sy'n cael trafferth talu. Ein nod yw alinio'r sesiynau hyn ar gyfer cwmnïau yng Nghymru â gweithgareddau Fforwm PR24 Cymru cyn belled ag y bo modd.

Rydym hefyd am weld cwmnïau'n cydweithio. Mae ein hegwyddorion gwerth cyhoeddus eisoes yn darparu rhywfaint o ganllawiau ar sut y dylai cwmnïau gydweithio ag eraill i optimeiddio atebion a sicrhau'r buddion mwyaf posibl, gan geisio alinio buddiannau rhanddeiliaid lle bo modd, a defnyddio cyfran deg o gyfraniadau trydydd parti lle bo angen. Er enghraifft, rydym eisiau cydweithredu i helpu i nodi ac amlygu atebion adnoddau dŵr rhanbarthol strategol neu fynd ar drywydd arloesi sy'n newid y sector drwy'r gronfa arloesi.

Wrth ddatblygu cynlluniau busnes, rydym yn disgwyl i **gwmnïau ystyried yn llawn gyfleoedd gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys cydariannu a chydgyflawni.** Lle mae buddion perthnasol i drydydd parti, rydym yn disgwyl i gwmnïau fynd ati i geisio cyfraniadau gan y partïon hyn. Dylai maint y cyfraniadau hyn fod yn gymesur â'r buddion y gall y partïon hyn ddisgwyl eu cael drwy'r cynllun. Er mwyn annog cwmnïau ymhellach i wneud y mwyaf o gyfleoedd cydariannu, rydym yn cynnig ystyried

cyfraniadau trydydd parti wrth i ni feincnodi gwariant gwella pan fyddwn yn ceisio sicrhau manteision economaidd ehangach.

Tra'n cydnabod safbwynt Llywodraeth Cymru ar gystadleuaeth, rydym yn cynnig **hwyluso unrhyw gynnydd yn y trothwy cymhwysedd ar gyfer cystadleuaeth yn y farchnad manwerthu busnes**. Byddai rheolaethau prisiau yn diogelu buddiannau unrhyw gwsmer busnes na all newid ei gyflenwr

Rydym hefyd am **wella'r ffordd yr ydym yn asesu costau gweithgareddau bioadnoddau er mwyn annog rôl atebion seiliedig ar y farchnad.** Rydym yn cynnig cryfhau ein dull ar gyfer cystadleuaeth gymharol drwy gynnwys mwy o gostau gyda'n modelau meincnodi. Byddai cwmnïau'n dal i benderfynu sut mae eu llaid yn cael ei gludo, ei drin a'i waredu.

O ran **gwasanaethau datblygwyr**, rydym yn cynnig cadw'r rheoliadau rheolaeth prisiau lle mae'r gystadleuaeth yn wan rhwng cwmnïau dŵr, darparwyr hunanosod a phenodeion newydd, er enghraifft o ran atgyfnerthu rhwydwaith. Lle mae cystadleuaeth yn gryfach, er enghraifft mewn datblygiadau mwy, rydym yn cynnig dileu rheoliadau rheolaeth prisiau. Mae'r cynigion hyn yn tybio y byddwn yn sefydlu rheolau codi tâl cysylltiad newydd ar gyfer cwmnïau Cymru ar neu cyn Ebrill 2025. Byddwn yn parhau i adolygu ein dull ar gyfer gwasanaethau datblygwyr i sicrhau ei fod yn addas at y diben i gefnogi datblygiad economaidd yng Nghymru.

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch I nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/ version/3.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gov.uk.